Archwilio Cymru
Audit Wales

1 Capital Quarter/1 Cwr y Ddinas
Tyndall Street/Stryd Tyndall
Cardiff/Caerdydd
CF10 4BQ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru

Pennaeth Cyllid a Chodi Arian
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Parc Llanion
Doc Penfro
Sir Benfro
SA72 6DY

**Cyfeirnod:** AGW546/st
**Dyddiad:** 17 Ebrill 2026

Annwyl Mr Jones

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**
**Archwiliad Cyfrifon 2025-2026**
**Hysbysiad o Apwyntio Dyddiad ar gyfer Gweithredu Hawliau'r Cyhoedd**

Rhoddir hysbysiad fy mod i wedi apwyntio 14 Medi 2026 am 9.00 yb fel y dyddiad, neu ar ôl y dyddiad hwn, y gall etholwyr llywodraeth leol ar gyfer yr ardal y mae'r cyfrifon yn ymwneud â hwy, weithredu eu hawl yn ôl adrannau 30 a 31 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, i gwestiynu'r Archwilydd Cyffredinol ynglŷn â, neu wneud gwrthwynebiad i gyfrifon y flwyddyn a bydd yn dod i ben ar 31 Mawrth 2026.

A fyddech cystal â chydnabod yn ysgrifenedig i chi dderbyn yr hysbysiad yma.

Mae adrannau 29 a 30 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (ac fel a bennwyd ymhellach yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio 2014) yn ei gwneud yn ofynnol fod y cyfrifon a dogfennau penodol eraill ar gael er mwyn i'r cyhoedd gael eu harolygu. Mae'r cyfnod ar gyfer arolygu cyhoeddus yn 20 diwrnod gwaith llawn cyn y dyddiad a apwyntiwyd yn ôl yr hysbysiad yma, a dylid rhoi 14 diwrnod o rybudd o ddechreuad y cyfnod arolygu cyhoeddus.

Yn dilyn diwygiadau 2018 i Reoliadau Cyfrifon ac Archwiliad (Cymru) 2014, rhaid arddangos rhybudd ar wefan yr awdurdod ac mewn o leiaf un lle amlwg yn ei ardal. Dylwn fod yn ddiolchgar pe baech yn anfon mewngof i mi i'r dudalen we sy'n dangos yr hysbysiad a chadarnhad o'r lleoliad (au) lle mae'r hysbysiad yn cael ei arddangos.

Yn gywir

[redacted]

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru